Bydd ein diet yn symud oddi wrth gig a mwy tuag at lysiau, ffrwythau a grawn. Bydd yn dod yn ddiel o fwydydd mwy cyflawn gyda chig yn dod yn rhywbeth arbennig unwaith yr wythnos yn hytrach na disgwyliad pob dydd gyda rhagor o goginio cartref.

Yr hyn fydd ei angen yw newid dramatig yn y modd yr ydyn ni'n ffermio i fwydo'r boblogaeth leol unwaith eto yn hytrach na marchnadoedd tramor. Mae hynny'n golygu cynhyrchu llai dwys; rhoi mwy o ran i'r cymunedau fel llafur cadarnhaol ac ailfeddwl beth gaiff ei dyfu ble. Mae gan Bowys gyfle enfawr i gynyddu cynnyrch bwyd mewn ffordd gynaliadwy, gyda chyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a chyflogaeth, ac i fod yn allforiwr net o fwyd i siroedd a dinasoedd cyfagos, ac i ddefnyddio'r 82% o'r tir sy'n weddill i dyfu coedwigoedd a thanwydd.

Dorienne Robinson, Ymgeisydd y Blaid Werdd ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed.

Tegwch yn absennol o gytundeb Copenhagen

Efallai ei bod yn anochel na fyddai trafodaethau newid hinsawdd y Cenhedloedd Unedig yn Copenhagen ym mis Rhagfyr yn bodloni disgwyliadau pawb – ond ychydig allai fod wedi gallu rhagweld pa mor siomedig fyddai'r canlyniad terfynol. Yn y misoedd yn arwain at y trafodaethau, roedd clymblaid heb ei thebyg o'r blaen o grwpiau amgylcheddol a hawliau dynol wedi galw ar i'r cytundeb fod yn deg, yn uchelgeisiol ac yn rhwymo'n gyfreithiol. Yn anffodus, nid oedd y Cytundeb ystafell gefn y cytunwyd arno yn Copenhagen yn y diwedd yn unrhyw un o'r pethau hyn. Caiff cost methiant Copenhagen ei fesur ym mywoliaethau pobl sydd eisoes yn dlawd mewn gwledydd sy'n datblygu. Y degawd diwethaf oedd y cynhesaf ers i gofnodion ddechrau. Bydd y DG yn gweld hafau poethaf, sychach – gyda phwysau ychwanegol ar wasanaethau brys a'r prinder dwr a

ddaw yn ei sgil. Ond mewn gwledydd sydd eisoes yn profi colli bywydau ar raddau eang oherwydd sychder a llifogydd, bydd cynnydd mewn tymheredd a lefel y môr yn drychineb. Mae rhai pobl yn credu na fydd newid yn yr hinsawdd yn

Cefnogaeth i bwerau iaith i'r Cynulliad

Mewn rali ar safle Cynulliad Cenedlaethol Cymru a drefnwyd gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg ac a fynychwyd gan dros 300 o bobl, cefnogodd Jake Griffiths, arweinydd Plaid Werdd Cymru ac ymgeisydd Gorllewin Caerdydd, y galw am drosglwyddo pwerau deddfu llawn i'r Cynulliad. Roedd y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (GCD) a oedd dan ystyriaeth yn y Cynulliad a'r Senedd, ac wedi cymryd blwyddyn yn hirach na'r disgwyl i'w lunio, yn cynnwys yr hawl i ofyn i rai cwmnïau preifat mawr, er enghraifft cwmnïau ynni a thelathrebu, i ddefnyddio'r iaith.

Dywedodd Jake Griffiths, Arweinydd Plaid Werdd Cymru: "Mae'r iaith Gymraeg yn fater cwbl Gymreig a chan fod pwerau'n dal i gael eu datganoli i'r Cynulliad mae'n hollol briodol bod pwerau deddfu llawn dros yr iaith Gymraeg yn dod o fewn grym y Cynulliad yng Nghymru yn hytrach na'r Senedd."

Aeth ymlaen i ddweud: "Mae mwy o bobl yn siarad Cymraeg heddiw, mae'r nifer o blant sy'n cael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ac oedolion sy'n dysgu Cymraeg ar eu lefelau uchaf erioed. Fodd bynnag, mae sialensiau'n dal i'n hwynebu i sicrhau bod pobl ifanc yn parhau i ddefnyddio'r iaith ar ôl gadael yr ysgol a sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i fod yn iaith y gymuned yn ei chadarnleoedd yng ngorllewin a gogledd Cymru. Bydd trosglwyddo pwerau deddfu llawn i'r Cynulliad Cenedlaethol yn helpu i sicrhau ymateb cadarnhaol i'r sialensiau yma a bod defnydd o'r Gymraeg yn parhau i gynyddu."

effeithio'n rhy ddrwg ar Gymru. Ond bydd angen rhywle i fyw ar boblogaeth cenhedloedd sy'n byw ar dir isel a'r rhai sy'n dioddef o sychder. Bydd symudiad niferoedd mawr o ffoaduriaid amgylcheddol yn broblem y bydd yn rhaid i bawb fynd i'r afael â hi. Hyd yn oed os na fydd y tywydd yng Nghymru'n sylweddol wahanol ymhen 30 mlynedd, mae'n rhaid i ni gymryd cyfrifoldeb am newid yn yr hinsawdd nawr, cyn ei bod hi'n rhy hwyr.

Mae'r Blaid Werdd wedi bod yn gwthio am Gymru decach a mwy gwyrdd ers amser maith – sef yr union egwyddorion y mae angen i fargen fyd-eang ar newid yn yr hinsawdd eu hymgorffori.

Tegwch oedd un o'r elfennau allweddol oedd ar goll o gytundeb Copenhagen. Oni bai bod gwledydd cyfoethog yn ymrwmo i doriadau digon mawr mewn targedau lleihau carbon, ac yn darparu digon o arian i'r gwledydd tlawd ddatblygu'n gynaliadwy, bydd bargaen fyd-eang yn parhau tu hwnt i'n cyrraedd. Ond drwy gefnogi'r Blaid Werdd, gallwch fod yn sicr y byddwn yn hyrwyddo tegwch ym mhopath a wnawn – gan helpu i greu Cymru fwy cynaliadwy, yn ogystal â chefnogi bargaen fyd-eang deg ac uchelgeisiol ar newid yn yr hinsawdd.

Adam Corner, ymgeisydd y Blaid Werdd yng Ngogledd Caerdydd ac ymchwilydd ym Mhrifysgol Caerdydd

Defnyddio Deddf Terfysgaeth yn erbyn ymgyrchydd Parc Bute

Rhwystrowyd ymgyrchwyr Gwyrdd yn erbyn cynlluniau Cyngor Caerdydd i adeiladu ffordd trwy Barc Bute rhag gwrthdystio y tu allan i Neuadd y Ddinas gan faricedau'r heddlu, tra bod yr ardal tu allan i'r neuadd yn cael ei defnyddio fel lle i gynghorwyr barcio'u ceir. Cafodd Anne Greagsby, ymgyrchydd yn erbyn Parc Bute, ei bygwth â'r Ddeddf Terfysgaeth gan heddwras tra'r oedd hi'n cwestiynu'r penderfyniad i gau'r ardal y tu allan i Neuadd y Ddinas. Dywedodd Ann Greagsby: "Mae'r heddlu wedi camdefnyddio'r Ddeddf Terfysgaeth i gyfyngu ar brotestio heddychlon, nid dyna oedd bwriad y gyfraith ond yn gynyddol, dyma sut mae'n cael ei defnyddio. Dangosodd y cyngor ddirmyg tuag at anghydweld a barn pobl Caerdydd sydd heb eu perswadio gan ddadleuon gwyrddoedig y Cyngor o blaid y bont ffordd sy'n torri drwy un o hoff barciau'r ddinas. Mae mynnu codi ffordd ar gyfer lorïau trwy ganol y parc, gan anwybyddu'r effaith amgylcheddol a pheryglu cerddwyr a beicwyr, yn frawychus o anghyfrifol."

Rhoi'r gorau i draffordd M4 newydd yn fuddugoliaeth i synnwyr cyffredin

Mae Gwyrddion Casnewydd wedi croesawu tro pedol Llywodraeth Cynulliad Cymru dros y cynlluniau i adeiladu Ffordd Liniar'u'r M4 o amgylch Casnewydd a ffordd newydd i Faes Awyr Caerdydd. Byddai'r draffordd £1biliwn wedi torri ar draws Lefelau Gwent sy'n ardal gadwraeth natur o bwys cenedlaethol, annog defnydd o geir a chynyddu allyriadau carbon. Dywedodd Pippa Bartolotti, Ymgeisydd Plaid Werdd Gorllewin Casnewydd: "Mae hyn yn newyddion gwych i'r holl fudiadau, fel CALM (Ymgyrch yn Erbyn Traffordd y Lefelau) a Chyfeillion y Ddaear Cymru, sydd wedi ymgyrchu mor galed i wrthwynebu Ffordd Liniar'u'r M4. Bydd Plaid Werdd Cymru yn parhau i fonitro gwariant Llywodraeth Cynulliad Cymru i weld a oes newid gwirioneddol wedi bod yn eu polisiau neu a fydd buddsoddi yn newid yn ôl at adeiladu ffyrdd pan fydd mwy o arian ar gael."

MILGI
lounge.com

eat art
drink music

Recipes from around the world
food from around the corner

(213 City rd)

Blaencamel Farm, Cilcennin
Growing vegetables organically to Soil Association standards
Produce available from for over 30 years
Farm shop - 7 days a week
Also at Farmers Markets:
- Roath - every Saturday (am)
- Riverside - every Sunday (am)
- Aberystwyth - 1st & 3rd Saturday (am)
- Cowbridge - 1st & 3rd Saturday (am)
Boxes delivered to Cardiff & Penarth, see
www.blaencamelbox.com

Gwyrddion Ceredigion yn ymladd dros gludiant cyhoeddus gwell

• Gwyrddion yn cefnogi cymunedau gwledig

Dathlodd Plaid Werdd Ceredigion 30 mlynedd eleni, yn union fel Leila Kiersch, Ymgeisydd Seneddol Plaid Werdd Ceredigion, a ddywedodd: "Mae'r neges y mae'r Blaid Werdd yn ei roi i bleidleiswyr yn dal i fod yr un peth nawr ag yr oedd yn ôl yn 1979, sef bod rhaid i ni fyw o fewn cyfyngiadau ein planed, gan rannu ei hadnoddau'n deg, a chydabod hawliau pob un o'i thrigolion."

"Un o'r materion y mae aelodau'r Blaid Werdd wedi bod yn gweithio arno'n adeiladol dros y blynyddoedd diwethaf yw gwella rhwydwaith bysiau cludiant cyhoeddus Ceredigion. Mae adroddiad manwl wedi cael ei gylchredeg trwy'r sir ac wedi cael ei drafod ar bob lefel o lywodraeth leol. Un o'r canlyniadau oedd cynhyrchu amserlen gynhwysfawr o wasanaethau bus o fewn y sir er, yn anffodus, bu rhaid i ni feirniadu elfennau o ddyluniad a chynllun y ddogfen. Awgrymodd Plaid Werdd Ceredigion y gallai'r Cyngor wella argraffiadau o'r amserlen yn y dyfodol trwy gael gwared â phob llun diangen, ei rhoi ar ffurf



Leila Kiersch, chwith, gydag aelodau eraill o Blaid Werdd Ceredigion

llyfr poced a chynnwys map o'r llwybrau. Byddai mantais arall i hynny hefyd sef bod dipyn yn rhatach i'w gynhyrchu."

"Fe awgrymon ni hefyd y dylid rhoi drafftiau o amserlenni yn y dyfodol i banel o ddefnyddwyr i gael eu sylwadau cyn i'r amserlenni fynd i'r wasg."

Dinas Noddfa Abertawe'n mynd o nerth i nerth

• Cefnogaeth i geiswyr lloches a ffoaduriaid

Mae Abertawe ar ei ffordd i ddod yn Ddinas Noddfa gydnabyddedig gyntaf Cymru yn ystod gwanwyn 2010. Dywedodd Keith Ross o Blaid Werdd Abertawe, sy'n aelod o Bwyllgor Llywio Dinas Noddfa Abertawe, "Yn y misoedd diwethaf mae mwy a mwy o grwpiau a mudiadau wedi cytuno i gefnogi menter Dinas Noddfa Abertawe. Erbyn hyn mae tua 75 o fudiadau wedi addo gwneud cymaint â phosib i wneud Abertawe'n ddinas sy'n cael ei chydabod am y croeso a'r gefnogaeth y mae'n eu cynnig i bobl sy'n chwilio am noddfa. Ein targed ar gyfer cydnabyddiaeth swyddogol yw 100 o fudiadau."

Lansiwyd arddangosfa 'Adeiladu Noddfa' ym mis Rhagfyr, sy'n dathlu gwaith pobl leol i wneud Abertawe'n lle mwy croesawgar. Roedd yr

arddangosfa i'w gweld yng nghyntedd y Ganolfan Ddinesig trwy gydol mis Rhagfyr a bydd yn symud i leoliadau amrywiol ledled y ddinas yn ystod y misoedd nesaf.

Aeth Keith Ross ymlaen i ddweud, "Wrth gwrs, dim ond y cam cyntaf yw arwyddo'r addewid o gefnogaeth. Rydym nawr yn canolbwyntio'n hymdrechion ar drafod sut yn union y gall y rhai sydd wedi addo eu cefnogaeth gyflawni'r addewid hwnnw. Trwy godi ymwybyddiaeth o'r materion sy'n wynebu ceiswyr lloches, ffoaduriaid ac eraill sy'n ceisio noddfa yn Abertawe rydym yn gobeithio gwneud gwelliannau ymarferol i brofiadau pobl sydd newydd gyrraedd ein dinas."

Arweinydd Plaid yn cefnogi chwalu rhan o'r Llain Werdd

• Holl droelli Mcevoylian Plaid yn methu cuddio'r bygythiad i'r Tir Glas o gwmpas Caerdydd

Mae aelodau'r Blaid Werdd wedi beirniadu Neil McEvoy, Is-Arweinydd Plaid Cymru ar Gyngor Dinas Caerdydd, am ei gefnogaeth i'r awgrym am Barc Busnes Rhyngwladol wrth Gyffordd 33 o'r M4 er ei fod yn honni ei fod eisiau diogelu llain las Caerdydd. Fe fyddai'r datblygiad arfaethedig yn hollti'n ddwfn i mewn i llain las Caerdydd - ardal sydd hyd yn hyn wedi'i diogelu.

Meddai Jake Griffiths, ymgeisydd y Blaid Werdd dros Orllewin Caerdydd: "Megis dechrau fyddai'r cynnig am Barc Busnes. Petai hynny'n cael ei ganiatau, fe fyddai'n dangos golau gwyrdd i unrhyw ddatblygydd sydd eisiau adeiladu ar y tir glas i drïo ychydig yn gale-tach er mwyn gwireddi eu cynlluniau."

"Mae'r cynllun hwn yn dilyn prosiectau eraill gan Gyngor Caerdydd sydd yn bygwth ardaloedd gwyrdd a

pharciau y Ddinas, fel y cynlluniau i adeiladu ffordd drwy ganol Parc Bute a'r cynlluniau i werthu rhan o'r tir o gwmpas Ysgol Uwchradd Cantonian. Mae'n amlwg na ellir dibynnu ar y Cyngor, sy'n glymblaid LibDem/Plaid, i warchod ardaloedd gwyrdd a pharciau Caerdydd.

"Mae ymgyrch Neil McEvoy i wrthwynebu datblygiadau preswyl tu fewn i'r llain werdd yn ddim ond llen fwg i ddargyfeirio sylw oddi wrth ei gefnogaeth i'r datblygiad wrth ymyl Cyffordd 33. Mae ei ymgyrch hefyd yn gobeithio dargyfeirio sylw oddi wrth carfan bwys o Consult Cardiff, sydd wedi gwneud gwaith gwych mewn amser byr iawn i dynnu sylw pobl at y bygythiad i ardaloedd gwyrdd Caerdydd a'r diffyg ymgyngori digonol sydd wedi bod ynglyn a'r datblygiadau arfaethedig."

Cynllwyn mudandod Llafur Cymru a Phlaid Cymru yn croesawu ynni niwclear i Gymru

• Llafur Cymru a Phlaid Cymru yn methu herio Llundain er lles Cymru

Mae Plaid Werdd Cymru wedi beirniadu Llafur Cymru a Phlaid Cymru am eu cefnogaeth dawel i ynni niwclear, a'u methiant i gefnogi Cymru werdd ddi-niwclear. Mae hyn yn dilyn cyhoeddi deg gorsaf niwclear newydd arfaethedig gan Ed Miliband gydag un yng Nghymru yn yr Wylfa.

Meddai John Matthews, Ymgeisydd y Blaid Werdd yn Mhontypridd: "Mae tawelwch Llywodraeth Cynulliad Cymru ar yr orsaf ynni niwclear arfaethedig yn yr Wylfa yn fyddarol. Mae hyn yn brawf pellach o blaid Lafur yng Nghymru sydd, er gwaethaf honiadau o 'dd'wr coch clir', yn methu herio Llundain er lles Cymru. Mae hefyd yn enghraifft arall lle mae Plaid Cymru wedi methu herio Llafur pan mae'n gwrth-

ddweud ei pholisi ei hun, sydd eisoes wedi ei dorri gan yr arweinydd Ieuan Wyn Jones er hwylustod gwleidyddol. Mae'r ddwy blaid ag un llygad ar warchod eu seddi ym Môn yn y Cynulliad ac yn y Senedd yn hytrach nag ar les economaidd ac amgylcheddol tymor hir Cymru."

"Os oes un diwydiant sy'n darlunio diffyg atebolrwydd ac archwilio lleol, ynni niwclear gyda'i gysylltiadau cryf â'r diwydiant arfau niwclear yw hwnnw. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu osgoi'r broses gynllunio drwy roi gorsafedd ynni niwclear drwy'r Comisiwn Isadeiledd Cenedlaethol sy'n newyddion drwg i ddemocratiaeth ac i'r amgylchedd."

'Digon yw digon' ar Academi Filwrol

• Gwersyll hyfforddi milwrol arfaethedig wedi'i breifateiddio ym Mro Morgannwg

Cefnogodd cynhadledd y Blaid Werdd y cynnig gan Sam Coates, ymgeisydd y Blaid Werdd yng Nghanol Caerdydd, yn gwrthwynebu'r academi filwrol arfaethedig ym Mro Morgannwg. Mae'r bartneriaeth sector cyhoeddus/preifat yn cynnwys Raytheon – sy'n cynhyrchu bomiau ffwydro bynceri y credir iddynt gael eu defnyddio gan Israel yn erbyn Gaza yn 2009. Mae'r bartneriaeth sy'n dwyn yr enw Metrix yn bwriadu adeiladu a rhedeg yr hyfforddiant milwrol wedi'i breifateiddio a fydd nid yn unig yn hyfforddi personél Prydeinig ond hefyd y rheiny sydd â'r arian i dalu o gyfundrefnau a chwmnïau milwrol preifat ledled y byd.

Meddai Sam Coates: "Wnes i ddim ymladd ym-

gyrch lwyddiannus i gael Prifysgol Caerdydd i dynnu ei buddsoddiad yn ôl o'r fasnach arfau dim ond i weld yr un cwmnïau a gwaeth yn cael eu noddi gan y llywodraeth i waethygu gwrthdaro ledled y byd."

"Bydd y Torïaid yn dweud y gellir preifateiddio popeth ar wahân i'r fyddin. Mae'r prosiect hwn yn mynd hyd yn oed ymhellach. Mae Plaid Cymru, ynghyd â'r Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol, wedi derbyn ac maen nhw'n cefnogi'r academi hyfforddi filwrol".

"Mae'r llywodraeth yn ceisio preifateiddio ein gwasanaeth iechyd, mae'n ceisio preifateiddio ein gwasanaeth post a nawr, dyma hyn. Mae'r Blaid Werdd yn anfon neges glir mai digon yw digon".

Ymgyrchwyr yn amddiffyn tai cyngor

• Ymgyrch 'Pleidleisiwch Na' i werthu tai cyngor yng Nghastell-nedd Port Talbot

Mae'r Blaid Werdd yn credu mewn perchnogaeth gyhoeddus dan reolaeth cynrychiolwyr etholedig fel rhan o ddarpariaeth gymysg ar gyfer tai cymdeithasol. Mae tai cyngor a'r ddaliadaeth sicr y maen nhw ei gynnydd yn rhan hanfodol o'r ddarpariaeth tai cymdeithasol. Mae'r rhaid i Lywodraeth Genedlaethol sicrhau bod stoc ddigonol o dai cyngor o ansawdd da yn cael ei chadw a'i darparu gan bob awdurdod lleol. Dylai hefyd sicrhau bod digon o gyllid ar gael i gyngorau i ddarparu gwasanaethau atgyweirio a chynnal a chadw effeithiol.

Gan weithio gyda Defend Council Housing a phobl leol, mae aelodau'r Blaid Werdd, Keith Ross (Abertawe) a Tony White (Castell-nedd), yn dal i fod

yn rhan o'r ymgyrch i berswadio tenantiaid tai cyngor yng Nghastell-nedd Port Talbot i 'Pleidleisio NA' i drosglwyddo stoc tai cyngor i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig. Mae disgwyl i Gyngor Castell-nedd Port Talbot gynnal pleidlais i denantiaid yn 2010.

Meddai Keith Ross, "Rydyn ni'n credu mai preifateiddio drwy'r drws cefn yw trosglwyddo stoc. Does gennym ni ddim ffydd yn y gwarantau a roddir gan gyngorwyr lleol ac eraill sy'n hyrwyddo'r trosglwyddiad. Mae profiad mewn mannau eraill yn dangos y bydd tenantiaid ar drugaredd grymoedd y farchnad unwaith y bydd trosglwyddiad wedi ei gyflawni. Ceir tystiolaeth hefyd sy'n dangos cynnydd mewn digartrefedd mewn ardaloedd lle mae'r stoc tai cyngor wedi ei throsglwyddo. Gobeithio y bydd tenantiaid Castell-nedd Port Talbot yn dilyn esiampl tenantiaid Abertawe a wrthododd drosglwyddo ddwy flynedd yn ôl."

Sylwadau Hiliol y BNP

Mynegodd Sam Coates, ymgeisydd y Blaid Werdd yng Nghanol Caerdydd, ddieter am sylwadau a wnaethpwyd gan arweinydd y BNP Nick Griffin a hawliodd nad "oedd y fath beth â Chymro du" ar raglen ar Sianel 4. Meddai Sam Coates: "Mae sylwadau Nick Griffin yn warthus ond ni ellir eu hanwybyddu oherwydd y cyhoeddusrwydd eang a gaiff ei sylwadau hiliol. Mae teimlad rhywun o Gymreictod neu Brydeindod yn bersonol iddyn nhw ac nid yw'n dibynnu ar farn rhywun arall am liw croen, cefndir ethnig, iaith a siaredir neu grefydd. Mae Cymru heddiw yn gymdeithas gymysg o ran ethnigrwydd sy'n parhau i fod â hanes o groesawu pobl o wahanol gefndiroedd o bob rhan o'r byd sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i gymdeithas Cymru."

Cefnogaeth i weithwyr Vestas

Siaradodd arweinydd Plaid Werdd Cymru, Jake Griffiths, i gefnogi gweithwyr Vestas yn rali Save Vestas Jobs! Save the Planet yng Nghaerdydd. Roedd y rali yn rhan o gyfres o ddigwyddiadau ledled y DG. Dywedodd Jake Griffiths: "Mae collir 625 o swyddi hyn yn drychineb bersonol i weithwyr Vesta a'u teuluoedd yn ystod y dirwasgiad gwaethaf y mae Prydain wedi ei weld ers y Dirwasgiad Mawr. Mae'r problemau y mae gweithwyr Vestas wedi eu hwynebu yn nodweddiadol o fethiant y Llywodraeth i ddatblygu'r chwyldro gwyrdd y mae cymaint o'i angen ar frys ym Mhrydain os ydym yn mynd i symud tuag at ddyfodol di-garbon."

Rhagweld prisiau ynni andwyol

Yn dilyn rhagfynegi codiadau andwyol mewn prisiau ynni gan Ofgem mae Plaid Werdd Cymru wedi galw ar y Llywodraeth i roi blaenoriaeth i welliannau mewn effeithiolrwydd ynni a chynhyrchu ynni adnewyddadwy. Mae Ofgem wedi dweud y bydd pris rwy yn codi 60% yn ystod y degawd nesaf, diffyg ynni pan fydd y galw'n dechrau bod yn fwy na'r cyflenwad, a thoriadau ynni posibl. Dywedodd Rhodri Thomas, ymgeisydd y Blaid Werdd ym Mro Morgannwg: "Yn anffodus, mae Llafur a'r Ceidwadwyr fel ei gilydd wedi cael eu dallu gan y cyfoeth aruthrol a gynhyrchwyd gan fancwyr y ddinas gan roi eu ffydd yn llwyr mewn marchnadoedd agored heb eu rheoleiddio sydd wedi gwthio'r economi i ddirwasgiad dwfn. Mae'r ffydd llwyr hon mewn marchnadoedd agored heb eu rheoleiddio wedi ei throsglwyddo i bolisi ynni gan arwain at brisiau uwch ac ansicrwydd ynni."

Free wind turbine site feasibility check

Just email the postcode of your potential site to sales@serenenergy.co.uk and Seren Energy will undertake a free wind turbine feasibility check

 www.serenenergy.co.uk



Eisiau gwybod mwy?

Gallwch weld newyddion diweddaraf Plaid Werdd Cymru ar-lein ar:

www.wales.greenparty.org.uk

Cyswllt drwy'r post:

Freepost Wales Green Party

Ar y ffôn:

0845 4581026

Gallwn helpu i ddosbarthu taflenni yn fy stryd leol neu arddangos poster.

Cofrestrwch fi fel cefnogwr i Blaid Werdd.

Hoffwn roi rhodd – i greu cynnydd go iawn.

Hoffwn gael gwybod mwy am Blaid Werdd Cymru.

Name: Tel:

Email:

Address:

..... Postcode





Lleihau lefelau carbon nid torri gwasanaethau cyhoeddus

Mae polisïau'r Blaid Lafur a'r Torïaid dros y tri degawd diwethaf a ffydd ddireswm ym mancwyr mawr y Ddinas wedi gwthio Cymru a gweddill y DG i ddyfnderoedd y dirwasgiad gwaethaf ers y Dirwasgiad Mawr gan ddod â chaledi i gymunedau ledled Cymru.

Rydym wedi gweld diwylliant o fonysau anferth i'r cyfoethocaf mewn cymdeithas tra bod y bwch rhwng y cyfoethog a'r tlawd wedi cynyddu mewn gwirionedd – pwy fyddai wedi credu hynny gan Lywodraeth Lafur!

Mae rhyfel Llafur yn Irac, a ddechreuwyd am resymau anonest, wedi arwain at farwolaethau 100,000 o bobl gyffredin yn Irac a chostio biliynau o bunnau i'r DG. Mae Llafur wedi ymrwymo o hyd i wastraffu biliynau o bunnau eto ar adnewyddu llongau tanfor niwclear Trident, a chardiau adnabod aneffeithiol.

Mae ymddygiad annerbyniol wedi staenio'r holl broses wleidyddol. Mae Llafur a'r Ceidwadwyr wedi bod yn baglu ar draws ei gilydd i ddadredoleiddio a phreifateiddio. Mae dadredoleiddio wedi arwain at argyfyngau ariannol, ansicrwydd mewn cyflenwad ynni, a methiant i fuddsoddi yn nhechnolegau ynni gwyrdd y dyfodol.

Ni sydd ag un o'r cofnodion gwaethaf o ran datblygu technolegau gwyrdd, yn sefyll tuag at waelod y rhestr Ewropeaidd o ran cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Rydym mor bell ar ôl fel y bydd y rhan fwyaf o'r swyddi a gaiff eu creu wrth i ni wneud y buddsoddiadau angenrheidiol i symud tuag at economi carbon isel i ymladd yn erbyn newid yn yr hinsawdd wedi eu creu y tu allan i Gymru a'r DG.

Meddai Jake Griffiths, Arweinydd Plaid Werdd Cymru ac Ymgeisydd Gorllewin Caerdydd: "Nid isel-fannau dirwasgiad economaidd difrifol yw'r amser i wneud toriadau mewn gwasanaethau cyhoeddus. Mae cryfder y sector cyhoeddus, yn enwedig yng Nghymru, wedi cadw'r economi i fynd yn ystod dirwasgiad Gordon Brown."

"Byddai'r Gwyrddion yn rhoi terfyn ar gynlluniau preifateiddio Llafur a'r Ceidwadwyr. Byddem yn sicrhau bod y Post Brenhinol yn aros mewn




Jake Griffiths with Green Party Leader Caroline Lucas

perchnogaeth ac atebolwydd cyhoeddus ac yn rhoi terfyn ar bartneriaethau hyfforddi milwrol, fel yr hyn a gynigir yn ymyl Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n dibynnu ar wneuthurwyr arfau am gyllid."

"Mae pobl eisïau cymdeithas sydd wedi ei seilio ar degwch ac ymddiriedaeth, yn enwedig yn y broses wleidyddol. Byddai'r Gwyrddion yn gwneud y newidiadau a'r buddsoddiadau angenrheidiol mewn ynni gwyrdd, cludiant cyhoeddus, gwella tai a gofali i'r henoed ac wrth wneud hynny yn sicrhau creu tua 50,000 o swyddi yng Nghymru."

Y bleidlais Werdd i fyny o 32,000 i 38,000

Ledled Cymru cododd y bleidlais Werdd o 32,000 i 38,000 yn etholiad Ewro 2009. Cafodd y Blaid Werdd fwy o bleidleisïau na Phlaid Cymru ym Mynwy. Yng Ngheredigion (7.7%) a Sir Drefaldwyn (8.6%) cafodd y Blaid Werdd fwy o bleidleisïau na Llafur. Yng Ngorllewin Caerfyrddin a Dinefwr cafodd y Gwyrddion fwy o bleidleisïau na'r Democratiaid Rhyddfrydol. Ym Mrycheiniog a Maesyfed (7.4%) roedd y Gwyrddion yn dynn wrth sodlau Plaid Cymru a Llafur fel ei gilydd. Ledled Caerdydd cofnododd y Gwyrddion y cynnydd mwyaf o bell ffordd ymhlith y prif bleidiau gyda'r bleidlais Werdd yn codi 30% i 8% - Dwyrain Caerdydd (9%) a Gorllewin Caerdydd (8%). Curodd y Gwyrddion Blaid Cymru yng Nghanol Caerdydd a chawsant bron gymaint o bleidleisïau â'r Dem Rhydd ac UKIP yng Ngorllewin Caerdydd.



Ledled y DG cafodd y Gwyrddion 1.3 miliwn o bleidleisïau – cynnydd o 44% - sy'n dangos addewid sylweddol ar gyfer yr etholiad cyffredinol sydd i ddod. Yn Lloegr, cafodd arweinydd y Blaid, Caroline Lucas, ei haillethol yn gyffyrddus, gyda'r bleidlais Werdd i fyny hanner, o 8% i 12%, gan offen ar y blaen i Lafur. Cafodd ymgais Dr Lucas i gael ei hethol i Senedd San Steffan hwb enfawr gan bleidlais o 31.3% yn Brighton and Hove.

Maer cyntaf y Blaid Werdd yng Nghymru yn ymrwymo i doriadau carbon

Mae Ann Were, Maer Mynwy a'r Maer Gwyrdd cyntaf yng Nghymru, wedi ymuno â'r ymgyrch 10/10 i berswadio pobl i leihau eu defnydd personol o ynni o 10% yn ystod y flwyddyn 2010, a thrwy hynny roi cychwyn ar raglen o leihau allyriadau carbon. Meddai Mrs. Were, un o aelodau sefydlol Trawsnewid Mynwy: "Rwy'n credu bod y 10:10 yn rhagorol ac na allai fod wedi dod ar amser pwysicach gan ei fod yn hoelio sylw pobl ar yr hyn y gallan nhw ei wneud yn bersonol. Byddaf yn annog pobl Mynwy ac rwy'n annog pobl ledled Cymru i wneud yr un peth."

"Mae newid yn yr hinsawdd mor bwysig fel na ellir ei adael i lywodraethau yn unig fynd i'r afael ag ef. Gall nifer fawr o bobl sy'n ymrwymo'n bersonol i arbed 10% gael effaith enfawr. Bydd nid yn unig yn dod â buddiannau amgylcheddol ond hefyd arbedion ariannol sy'n eithriadol o bwysig yn y wasgfa economaidd bresennol sy'n effeithio arnom i gyd. Hyd yma cafwyd llawer o

siarad gwag gan y Cynulliad ar fater newid yn yr hinsawdd ac ychydig o ostyngiad yn yr allyriadau fel sydd ei angen ar frys.

Mae'n bwysig i unigolion wneud ymrwymiad personol fel y gallwn herio'r llywodraeth a dweud 'mae pobl yn gwneud eu rhan nhw – nawr tro'r llywodraeth yw hi i helpu i roi'r wlad hon ar y llwybr i ddyfodol carbon isel'".



Ann Were, Maer Gwyrdd Mynwy gyda David Thorpe o Treenergy

canolfan cartref eco home centre
Wales' own eco-friendly living and sustainable building centre
eco-friendly paints and wood finishes
training courses, advice and design
energy & water saving devices
home energy audits
free resource centre
www.ecohomecentre.co.uk
16 Wyndham Cres. Cardiff, CF11 9EH 02920 373094